**Archwiliad**
**Adolygu**
**Cynllun Datblygu**
**Lleol Eryri**

**Snowdonia Local**
**Development Plan**
**Revision**
**Examination**

**Richard Duggan** BSc(Hons) DipTP MRTPI
Arolygydd Cynllunio / Planning Inspector
**Rhian Randall**: Swyddog Rhaglen / Programme Officer
Swyddfa'r Parc Cenedlaethol / National Park Office
Penrhyndeudraeth
Gwynedd
LL48 6LF

Ffôn / Tel 01766 772203
*swyddogrhaglen@eryri.llyw.cymru*
*programmeofficer@snowdonia.gov.wales*

12 Mehefin 2018

Mrs Rebeca Jones
Pennaeth Polisi Cynllunio
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Swyddfeydd y Parc Cenedlaethol
Penrhyndeudraeth
Gwynedd, LL48 6LF

Annwyl Mrs Jones,

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**
**Archwiliad Adolygu Cynllun Datblygu Lleol 2016 – 2031**

Ysgrifennaf atoch mewn perthynas â'r ymgynghoriad diweddar ynglŷn â'r diwygiad arfaethedig i Bolisi Cynllunio Cymru (PCC). Yng ngoleuni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae Llywodraeth Cymru'n cynnig diwygio PCC. Mae PCC wedi'i ail-strwythuro i mewn i themâu polisi o gwmpas y nodau llesiant a diweddarwyd y polisi i adlewyrchu strategaethau a pholisïau newydd Llywodraeth Cymru. Y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad oedd 18 Mai 2018, ond nid oes gennyf ddyddiad ar gyfer cyhoeddiad ffurfiol y ddogfen ar hyn o bryd.

Byddwn yn gwerthfawrogi eich barn ynglŷn â goblygiadau'r PCC diwygiedig a gynigir, os oes rhai, mewn perthynas â CDLl Eryri a'r archwiliad i'r diwygiadau a gynigir. Yn amodol ar eich ymateb, mae'n bosibl y bydd angen i mi godi cwestiynau mewn perthynas â'r mater hwn yn y sesiynau gwrandawiad sydd ar ddigwydd.

Os ydych angen eglurhad pellach ynghylch unrhyw ran o'r uchod, mae croeso i chi gysylltu â mi drwy'r Swyddog Rhaglen.

Yr eiddoch yn gywir,

*Richard Duggan*

**Richard Duggan**
**AROLYGYDD**

c.c. Mark Newey, Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru